PWYLLGOR SAFONAU A MOESEG

DYDD MERCHER, 20 GORFFENNAF 2016

| | |
|---|---|
| Yn bresenol: | Aelodau Annibynnol: Richard Tebboth (Cadeirydd), James Downe, Hollie Edwards-Davies a/ac Lizz Roe |
| | Cynghorwyr: Cowan, Margaret Jones a/ac Phillips |
| | Cynghorydd Cymuned John Hughes |

1 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan Hugh Thomas (Aelod Annibynnol).

2 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganwyd y buddiannau canlynol: -

| **Aelod** | **Eitem** | **Buddiant** |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Cowan | Eitem 8 | Buddiant Personol gan y gellid bod angen mynychu cynadleddau ar ran y Cyngor. |
| Y Cynghorydd Margaret Jones | Eitem 8 | Buddiant Personol gan y gellid bod angen mynychu cynadleddau ar ran y Cyngor. |
| Y Cynghorydd Phillips | Eitem 8 | Buddiant Personol gan y gellid bod angen mynychu cynadleddau ar ran y Cyngor. |
| James Downe | Eitem 8 | Buddiant personol gan y mynychodd Gynhadledd gan y Cyngor ar Foeseg |
| Hollie Edwards-Davies | Eitem 8 | Buddiant Personol gan y gellid bod angen mynychu cynadleddau ar ran y Cyngor. |
| Lizz Roe | Eitem 8 | Buddiant Personol gan y gellid bod angen mynychu cynadleddau ar ran y Cyngor. |
| Y Cynghorydd Cymuned John Hughes | Eitem 4<br><br>Eitem 8 | Protocol Buddiant Personol y Pwyllgor Cynllunio<br><br>Buddiant personol gan y mynychodd Gynhadledd gan y Cyngor ar Foeseg |

3 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2016 fel cofnod cywir.

4 : PROTOCOL Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cafodd y Pwyllgor adroddiad ar ddatblygu Protocol Pwyllgor Cynllunio drafft gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).
Croesawodd y Cadeirydd Simon Gilbert, Rheolwr Gweithredol a Chynllunio Strategol i'r cyfarfod.

Roedd CLlLC wedi gweithio gyda chynrychiolwyr o nifer o awdurdodau, gan geisio sefydlu dull mwyaf cyson o gynllunio ledled Cymru, a drafftiwyd protocol pwyllgor gwirfoddol a fu'n destun ymgynghoriad. Nod y Protocol oedd sicrhau nad oedd yn y broses gynllunio resymau dros awgrymu penderfyniadau â thuedd, neu â seiliau gwantan, ac y bwriadwyd iddo ategu unrhyw godau cenedlaethol neu leol ar Ymddygiad Aelodau, yn ogystal â'r trefniadau cyffredinol ynghylch llywodraethu cyfarfodydd.

Rhoddodd y Rheolwr Gweithredol ddiweddariad ar yr ymateb i'r Protocol a wnaed gan y Pwyllgor Cynllunio a dywedodd hyd yma na chafwyd adborth gan CLlLC ar y broses ymgynghori a ddaeth i ben ar 20 Mai 2016. Yn anffodus, collwyd y cyfle i roi adborth ar safonau moesegol, materion cywirdeb a materion ynghylch Cod Ymddygiad Aelodau gan y Pwyllgor hwn.
Gwahoddodd y Cadeirydd gyfraniad gan y Pwyllgor. Cafwyd nifer o sylwadau ac arsylwadau: -

<u>Materion Llywodraethu Pwyllgor</u> Pryderon ynghylch cworwm y Pwyllgor Safonau a Moeseg a arweiniodd at ganslo cyfarfod mis Mai y Pwyllgor a fyddai wedi caniatáu trafodaeth ar y Protocol ac ymateb i'w gynnwys cyn y terfyn amser a ymestynnwyd i 31 Mai.

- Pryderon nas cynrychiolwyd Caerdydd ar Grŵp drafftio CLlLC.
- Nodwyd bod Un Llais Cymru wedi ymateb ar ran Cynghorau Cymuned cyn y terfyn amser.

<u>Protocol</u>

- Cydnabuwyd bod gan Gaerdydd safbwynt cynllunio / cynllunio gofodol unigryw gan ddelio â nifer fawr o faterion cynllunio cymhleth
- Roedd y Pwyllgor yn awyddus i'r protocol newydd beicio â cholli unrhyw rai o'r canllawiau cyfredol.
- Roedd angen dull pwrpasol ar Gaerdydd o ymdrin â phrotocolau ar ymweliadau safle; hawliau i siarad yn y Pwyllgor; a chynrychioliadau i'r Cadeirydd a Swyddogion;
- Croesawodd yr aelodau atgyfnerthiad egwyddorion o ran Ymddygiad a gwaredu tuedd i ddiogelu enw da'r Cyngor, y Pwyllgor Cynllunio ac Aelodau.
- Roedd y Pwyllgorau'n awyddus i'r egwyddorion a'r protocol ffurfio rhan o'r rhaglen Dysgu a Datblygu i Aelodau;
- Gofynnodd Aelodau a oedd CLlC wedi, neu a allai gael ei gwahodd i arsylwi'r Pwyllgor Cynllunio a rhoi adborth.

<u>Siarter y Cyngor Cymuned</u>

- Codwyd pryderon nad dygwyd ymlaen ag ymrwymiad gan yr Aelod Cabinet yn y Cyngor ym mis Mehefin i ddatrys materion y Siarter Cyngor Cymuned yn arbennig o ran cyfraniad y Cyngor Cymuned at yr Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC) a phenderfyniadau rhwymedigaeth Cynllunio Adran 106.
- Croesawodd y Pwyllgor y diweddariad gan y Rheolwr Gweithredol a ddilynodd adroddiad i'r Adroddiad ar ASC a'r atodlen codi ddrafft. Câi amserlen hyfforddi a digwyddiadau ymgynghori eu trefnu i fis Awst a mis Medi 2016. Byddai hyn yn codi ymwybyddiaeth o egwyddorion allweddol ar hyn y gellir, ac na ellir, ei gyflawni.

PENDERFYNWYD –

1. adsefydlu deialog rhwng y Cyngor a'r Cyngor Cymuned a symud ymlaen â'r Siarter Cyngor Cymuned;
2. 
3. croesawodd y Pwyllgor y trefniadau ar gyfer Gweithdai Cynghorwyr a Chynghorwyr Cymuned;

nodwyd na chafwyd adborth gan CLlLC ar yr ymgynghoriad ar y Protocol Pwyllgor Cynllunio.

5 : CANLLAWIAU AR GYFRYNGAU CYMDEITHASOL - ADOLYGIAD

Rhoddwyd cyfle i'r Pwyllgor adolygu'r canllawiau a roddir i Aelodau ar ddefnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol i weld a oedd angen diwygiadau neu weithredu pellach.

Gwnaeth Aelodau'r sylwadau ac arsylwadau canlynol:

- Nodwyd na wnaed monitro rheolaidd ar Gynghorwyr yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn unig pan fo cwyn eu fater yn cael eu dwyn i sylw'r Swyddog Monitro.
- Credai Aelodau taw rôl y Pwyllgor oedd bod yn rhagweithiol wrth edrych ar faterion ynghylch Cynghorwyr yn defnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol fel y gallant ystyried p'un ai a gydymffurfid â chanllawiau;
- Teimlai'r Pwyllgor pan roddir hyfforddiant y byddai'n ddefnyddiol i enghreifftiau o arfer gwael o ran croesi ffiniau a chanlyniadau hynny.
- Trafododd Aelodau eto'r mater o rôl Aeloda fel Cynghorydd a'u gallu personol a defnyddio ffiniau.

PENDERFYNWYD –

1. Atgoffa Aelodau o'u cyfrifoldebau o ran cyfryngau cymdeithasol a chanllawiau fel rhan o Friff yr Holl Aelodau gan y Pwyllgor Safonau a Moeseg;
2. 

Dim newidiadau i'r Canllawiau Cyfryngau Cymdeithasol a fabwysiadwyd ym mis Gorffennaf 2014.

6 : GORUCHWYLIO CYFARFODYDD Y CYNGOR

Cafodd y pwyllgor adborth gan Aelodau ar arsylwadau o'u presenoldeb yng nghyfarfodydd eraill y Cyngor a Phwyllgorau.

Roedd Hollie Edwards Davies wedi bod yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 18 Gorffennaf 2016 a gafodd adborth cychwynnol ar yr Arolwg Aelodau; Rhaglen Dysgu a Datblygu Aelodau 2016/17; Rhaglen Sefydlu Mai 2017 a gwaith i'w gwblhau; materion ynghylch mentora Cyfoedion; rolau a chyfrifoldebau i'r holl Gynghorwyr; hyfforddiant ar y Cod Ymarfer; yr angen am asesiad Anghenion Hyfforddiant i Aelodau newydd.

Cafwyd adborth ar y Pwyllgor Cynllunio a'r angen am gyfathrebu gwell o ran Rhwymedigaethau Adran 106 a dyrannu cyllid.

Cododd Cynghorwyr bryderon ynghylch ymddygiad a parchu unigolion yng nghyfarfodydd y Cyngor yn benodol mewn digwyddiad yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Mehefin rhwng Cynghorydd ac Aelod o'r Cyhoedd yn yr Oriel.

Roedd rhai pryderon a drafodwyd gan Chwipiaid ar ddatgysylltu Aelodau yn y broses Graffu; a chyfrannu at gyfleoedd briffio a dysgu.  Teimlwyd bod tymor 5 mlynedd yn rhy hir ar gyfer un weinyddiaeth.

PENDERFYNWYD – I'r arsylwadau gael eu nodi a rhoi adborth ar faterion i'r swyddogion perthnasol.

7 : ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU A MOESEG 2015/16

Cafodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Drafft a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Medi 2016.

Diolchodd y Pwyllgor i'r swyddogion am lunio adroddiad cynhwysfawr ar waith y Pwyllgor ac mewn egwyddor roeddem yn fodlon ar ei gymeradwyo ynghyd ag unrhyw adborth pellach erbyn 19 Awst.

PENDERFYNWYD – Roedd  y wybodaeth yn yr adroddiad i fod yn rhan o'r Briff Aelodau i'w anfon yn Awst 2016.

8 : DARPARIAETH LLETY A PHRESENOLDEB MEWN CYNADLEDDAU - ADOLYGIAD O'R GWEITHDREFNAU

Cafodd y Pwyllgor gyfle i adolygu proses y Cyngor ar gyfer llywodraethu lletygarwch; anrhegion; a buddiannau; a phresenoldeb mewn cynadleddau, seminarau a digwyddiadau eraill yn dilyn argymhellion a wneir ar ôl Archwiliad mewnol.

Manylodd yr adroddiad ar y prif newidiadau yn yr egwyddorion a'r darpariaethau ar ôl ymgynghori â'r Uwch Dîm Rheoli, a chodwyd materion yn benodol ynghylch y lletygarwch a rydd y Cyngor; a chofnodi prosesau rheoli arferol yn benodol o ran cyfarfodydd priodol cyfarwyddiaethau neu broffesiynol, hyfforddiant a seminarau, a chyflwyno trothwyon pellach.
Awgrymwyd y byddai cyflwyno sgôr RAG yn ffordd ddefnyddiol o asesu'r hyn y dylid ei gofnodi'n ffurfiol a beth oedd yn rheoli gweithredol neu fusnes.

PENDERFYNWYD –

1. nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad;
2. 
3. ychwanegu'r sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor wrth gwblhau'r dogfennau mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro Dros Dro;

4. trafodwyd adroddiad pellach i'w ddwyn gerbron y pwyllgor hwn i roi diweddariad ar faterion i fynd i'r afael â nhw yn yr adroddiad a gan y Pwyllgor.

9 : DIWEDDARIAD AR GWYNION AM GOD YMDDYGIAD YR AELODAU

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ar gwynion yn erbyn Aelodau'r Cyngor yn ystod y 4 chwarter diwethaf, yn honni achosion o dorri'r Cod Ymddygiad. Canolbwyntiodd yr adroddiad ar y chwarter diwethaf.

Nodwyd a thrafodwyd yr hysbysiad a gafwyd gan yr Ombwdsmon am Gwyn ffurfiol yn erbyn wyth Cynghorydd Cymuned o'r un Cyngor Cymuned. Roedd y gwyn yn erbyn pump o'r Cynghorwyr Cymuned heb eu cadarnhau a disgwyliwyd am ymateb yr Ombwdsmon i'r tair yn weddill.

Dywedodd y Cadeirydd fod nifer o achosion yr Ombwdsmon heb eu barnu o blaid yr achwynydd a bod trothwy'r hyn sy'n cynnwys trafodaeth wleidyddol gadarn a derbyniadwyedd wedi'i ddiffinio'n well ar ôl rhai achosion. Cydnabuwyd bod rôl i'r Swyddog Monitro i godi ymwybyddiaeth Aelodau o broses cwyno ac iddynt geisio cyngor gan y Swyddog Monitro ar unrhyw gwynion sydd ganddynt.

PENDERFYNWYD - Y byddai cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.

10 : BRÎFF CHWE MISOL YR AELODAU

Yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor ym Mawrth 2016 cafwyd adroddiad ar Adroddiad Dilynol Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ar 26 Chwefror 2016. Nododd y Pwyllgor y cyfeiriadau penodol i'r Pwyllgor Safonau a Moeseg a wnaed yn adroddiad SAC (paragraffau 24, 49 a 50) a'r cynnig i wella rhif P5, a oedd yn cynnwys cyfeirio at y Pwyllgor a'i rôl wrth wella atebolrwydd aelodau drwy:

*"Sicrhau bod y Pwyllgor Safonau a Moeseg yn chwarae rôl fwy rhagweithiol wrth hyrwyddo a gorfodi Ymrwymiad Caerdydd i Gynghorwyr a chefnogi polisïau o ran ymddygiad Aelodau."*

Mynegodd Aelodau'r Pwyllgor amryw amheuon am farn SAC nad oedd y Pwyllgor yn ddigon rhagweithiol, ond cytunwyd i'r Camau Gweithredu a gymeradwywyd gan y Cabinet, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd mewn ymateb i gynnig SAC i wella P5(a) sef:

*"P5a Y Pwyllgor Safonau a Moeseg i gyhoeddi Briffiau Aelodau bob dwy flynedd ar waith y Pwyllgor, yn tanlinellu pwysigrwydd Ymrwymiad Caerdydd ac ymddygiad Aelodau. (Erbyn 9 Awst 2016)*

Gwahoddwyd y Pwyllgor i ystyried a rhoi sylwadau ar faterion i'w cynnwys yn y Briff Aelodau.

Yn ogystal â'r uchafbwyntiau o'r adroddiad Blynyddol awgrymwyd cynnwys yr eitemau ychwanegol canlynol:

- Canllawiau Cyfryngau Cymdeithasol i Gynghorwyr;
- Cyfleoedd i gyfrannu a dod yn Aelodau Pwyllgor.

PENDERFYNWYD – I'r Swyddog Monitro Dros Dro, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd o ran sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor, baratoi Briff Aelodau drafft i'w ddosbarthu i'r holl Aelodau yn Awst 2016.

11 : DIWEDDARIAD Y SWYDDOG MONITRO AR LAFAR

Rhoddodd y Swyddog Monitro Dros Dro ddiweddariad i'r Pwyllgor ar benodiad ffurfiol Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol. Penodwyd Davina Fiore a byddai'n dechrau ar ei rôl ym mis Medi 2016.

Diolcha'r Pwyllgor i David Marr a weithredodd rôl y Swyddog Monitro Dros Dro am ei waith caled a'i ymrwymiad i'r Pwyllgor dros y 5 mis diwethaf.

Cafodd y Pwyllgor wybod fod y Cyngor Blynyddol 26 Mai 2016 wedi mabwysiadu'r diwygiadau technegol i'r Cod Ymarfer a fabwysiadwyd bellach gan y Cyngor.

12 : BLAENGYNLLUN 2016/17

Cafodd ac ystyriodd y Pwyllgor y Blaengynllun ac ystyriodd y flaenoriaeth a roddir i eitemau.

PENDERFYNWYD –

1. Eitem 8 ar gynllun y Siarter Cyngor Cymuned i'w raddio'n flaenoriaeth GOCH;
2. 
3. Y Rheolwr y Gwasanaethau Pwyllgorau ac Aelodau i ailddosbarthu'r Calendr Cyfarfodydd Cyngor a Phwyllgorau fel y gall yr Aelodau Annibynnol gytuno ar y cyd pa gyfarfodydd a gâi eu harsylwi dros y chwarter nesaf;

4. Cytunodd Hollie Edwards-Davies a Lizz Roe i gefnogi cyfarfodydd y Grŵp Llywio Datblygu Aelodau ym mis Awst a mis Medi 2016.

13 : DYDDIADAU CYFARFODYDD I'R DYFODOL

Trafododd y Pwyllgor y diwrnodau a'r dyddiadau i gyfarfodydd yn y dyfodol a gofynnodd i'r dyddiadau hyn gael eu haddasu i ddydd Mercher ar 4.30pm.

PENDERFYNWYD – I'r Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgorau ac Aelodau drefnu i Aelodau gael eu holi am y dyddiadau diwygiedig ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Daeth y cyfarfod I ben am Time Not Specified